



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Canllawiau ar Ddiffiniadau o Ddangosyddion, Data a Gofynion Tystiolaeth

Blaenoriaeth 5 Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Diffiniadau o Ddangosyddion ar gyfer Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio'n Rhanbarthol

Fersiwn: 1.0 Awst 2019

**Cronfeydd yr UE:
Buddsoddi yng
Nghymru
EU Funds:
Investing in Wales**



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyffredinol

Dylai'r Cynllun Busnes amlinellu'r grŵp targed, y math o weithgareddau i'w cynnal a'r ffordd y maen nhw'n cyfrannu at allbynnau a chanlyniadau pob Amcan Penodol (AP).

Dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) gytuno ar fanylion y dystiolaeth sydd i'w chasglu a dylid ei nodi yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso.

Data Monitro

Bydd angen darparu data er mwyn cefnogi hawliadau. Mae Atodiad B yn nodi'r gofynion data gorfodol ar gyfer rhaglenni a ariennir gan WEFO.

Dylai buddiolwyr gasglu data monitro ychwanegol er mwyn sicrhau y gellir gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y Rhaglen.

Dylid lanlwytho'r data drwy WEFO ar-lein fel rhan o'r broses hawliadau. Mae templed ar gyfer darparu data ar gael ar wefan WEFO.

Blaenoriaeth Echel 5 Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio'n Rhanbarthol

Amcanion Penodol

AP1: Cydweithredu ac arloesi wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

AP1 – Cydweithredu ac arloesi wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus

| | Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (WWV) | Targed Dwyrain Cymru (EW) |
|--|--|------------------------------------|
| Allbynnau | | |
| Nifer y dulliau, y prosesau a'r adnoddau sy'n cael eu datblygu gyda chymorth | 10 | 10 |
| Nifer y partion sy'n cymryd rhan mewn prosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol. | 15 | 15 |
| Nifer y prosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol | 4 | 4 |
| Canlyniadau | | |
| Nifer y dulliau, y gweithdrefnau a'r adnoddau newydd a ddatblygwyd ac a ddosbarthwyd | 8 | 8 |

Allbynnau

Nifer y prosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol

At ddibenion y dangosydd hwn mae pob rhaglen yr ESF a ariannwyd dan Flaenoriaeth 5 yn cyfateb i un '**prosiect**'.

Nifer y dulliau, y prosesau a'r adnoddau sy'n cael eu datblygu gyda chymorth

Nifer y dulliau, y prosesau a'r adnoddau *gweithio* sy'n cael eu datblygu gyda chymorth yr ESF at ddibenion cyflawni gweithgaredd gwasanaeth cyhoeddus yn rhanbarthol.

gall **'dulliau'** fod yn newydd neu gynnwys gwelliannau i ddulliau presennol, cyn belled â'u bod yn newydd i'r sefydliad neu'r rhanbarth.

mae **'datblygwyd gyda chymorth'** yn golygu bod y costau o gynllunio'r dull, y broses a/neu'r adnodd a'i wneud yn weithredol yn cael eu talu gan raglen yr ESF.

Mae **'gweithgaredd gwasanaeth cyhoeddus'** yn un sy'n cyfrannu at y camau dangosol y cyfeiriwyd atynt yn y Rhaglen Weithredol.

Gellid hawlio'r dangosydd hwn unwaith y mae gwariant ar ddatblygu'r dull, y broses a/neu'r adnodd yn dechrau cael ei ddatgan i WEFO mewn hawliadau.

Tystiolaeth a awgrymir:

Mae'n rhaid cadw dogfennau perthnasol fel tystiolaeth bod y gwaith wedi cychwyn ar bob dull, proses ac adnodd ac mae'n rhaid iddo fod ar gael i'w archwilio. Cytunir ar fanylion y dystiolaeth sy'n ofynnol rhwng rhaglen yr ESF a WEFO, fel rhan o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso.

Nifer y partïon sy'n cymryd rhan mewn prosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol

At ddibenion y dangosydd hwn:

mae '**partïon sy'n cymryd rhan**' yn cynnwys pob sefydliad gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael budd o'r gweithgareddau (fel meithrin gallu) a ddarparwyd gan raglen yr ESF. Mae'n cynnwys buddiolwyr arweiniol a chyd-fuddiolwyr pan fo'r rhain yn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael budd o'r gweithgareddau.

Nid yw 'partïon' fodd bynnag yn cynnwys buddiolwyr arweiniol neu gyd-fuddiolwyr sy'n darparu gwasanaethau rheoli prosiect, arbenigedd neu wasanaethau arbenigol yn unig i'r rhaglen. Yn yr un modd, nid yw contractwyr sydd wedi'u caffael ac sy'n darparu gwasanaethau i'r rhaglen wedi'u cynnwys.

Tystiolaeth a awgrymir

Ddylid cadw tystiolaeth ddogfennol o gyfranogiad y partïon. Cytunir ar fanylion y dystiolaeth sy'n ofynnol rhwng rhaglen yr ESF a WEFO, fel rhan o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso.

Canlyniadau

Nifer y dulliau, y gweithdrefnau a'r adnoddau newydd a ddatblygwyd ac a ddosbarthwyd

Nifer y dulliau, y prosesau a'r adnoddau *gweithio* y cyfeirir atynt yn allbwn *Nifer y dulliau, y prosesau a'r adnoddau sy'n cael eu datblygu gyda chymorth a ddatblygwyd* gyda chymorth yr ESF ac a gafodd eu **dosbarthu**.

mae '**datblygwyd**' yn golygu nad oedd y dull, y weithdrefn neu'r adnodd yn bodoli cyn rhaglen yr ESF ac mae wedi'i gynllunio a'i wneud yn weithredol gan raglen yr ESF

mae '**dosbarthu'n**' golygu bod y dull, y weithdrefn neu'r adnodd wedi'i rannu â sefydliad(au) eraill. Er enghraifft, ei rannu â sefydliad mewn rhanbarth arall.

Tystiolaeth a awgrymir

Mae'n rhaid cadw dogfennau perthnasol fel tystiolaeth o bob dull, gweithdrefn neu adnodd a ddatblygwyd gan y rhaglen ac mae'n rhaid iddo fod ar gael i'w archwilio. Cytunir ar fanylion y dystiolaeth sy'n ofynnol rhwng rhaglen yr ESF a WEFO, fel rhan o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso.